**RHYBUDD O WNEUD GORCHYMYN**
**DEDDF PRIFFYRDD 1980**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**(LLANARMON YN IÂL 59)**
**GORCHYMYN GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS 2023**

Bydd y gorchymyn uchod, a wnaed ar 21 Chwefror 2023, o dan adran 119 Deddf Priffyrdd 1980, yn dargyfeirio hyd bresennol y llwybr troed a ddisgrifir yn **1)** isod i linell wahanol a ddisgrifir yn **2)** isod.

**1) Disgrifiad o'r llwybr troed presennol.**

Y rhan honno o Lwybr Troed Cyhoeddus 59 yng Nghymuned Llanarmon-yn-Iâl yn Sir Ddinbych sy'n cychwyn ar bwynt presennol ar Lwybr Troed 59 ychydig ar ôl y bont droed, ym mhwynt A ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18373 58794 ac yn rhedeg mewn cyfeiriad gogledd orllewinol am tua 114.3 metr i bwynt B ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid yr OS SJ 18316 58887. Mae'n parhau i'r gogledd orllewin am 46.7 metr i Bwynt C ar gynllun y Gorchymyn ar y lôn a elwir yn groesffordd y Capel i'r A494, yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18303 58930. Croesi'r lôn o bwynt C a theithio tua'r gogledd-ddwyrain am 24.4 metr i bwynt D ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid yr OS SJ 18323 58942, gan barhau tua'r gogledd am tua 64.8 metr i Bwynt E ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18330 59006. Mae'r llwybr yn parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 102.1 metr i bwynt F ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18384 59091 ac yn olaf i'r gogledd-ddwyrain eto am tua 152.6 metr i bwynt G ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18494 59192.

Fel y dangosir gan linell frown gadarn rhwng pwyntiau A-B-C-D-E-F-G ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn.

**2) Disgrifiad o'r llwybr newydd.**

Bydd yn cael ei dargyfeirio i linell wahanol gan ddechrau o bwynt ar lwybr presennol 59 ychydig ar ôl y bont droed ym mhwynt A ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid yr OS SJ 18373 58794. Mae'n rhedeg i'r gogledd-ddwyrain am tua 138.5 metr i bwynt H ar gynllun y Gorchymyn yn y ffordd gyhoeddus a elwir yn groesffordd y Capel i'r A494 yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18392 58932. Mae'r llwybr yn parhau i'r gogledd ar draws y lôn am tua 7.37 metr i bwynt J ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18392 58939 ac yna i'r gogledd-ddwyrain am tua 84.3 metr i Bwynt K ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18418 59019. Mae'r llwybr yn parhau i'r gogledd (dros y geuffos ym Mhwynt L ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18430 59107) yna i'r gogledd-ddwyrain am tua 113.3 metr i Bwynt M ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid OS SJ 18442 59128. Yna eto i'r gogledd-ddwyrain am tua 78.6 metr i Bwynt N ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid yr OS SJ 18496 59185 ac yna'n olaf i'r gogledd-orllewin am tua 6.8 metr i Bwynt G ar gynllun y Gorchymyn yng Nghyfeirnod Grid yr OS SJ 18494 59192.

Fel y dangosir gan linell doredig werdd rhwng pwyntiau A-H-J-K-L-M-N-G ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn.

Mae copi o'r Gorchymyn, a'r map wedi eu gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor yn Llyfrgell Rhuthun, Stryd y Llys, Rhuthun, neu drwy gysylltu â'r cyngor drwy e-bost: hawliautramwy@sirddinbych.gov.uk neu rightsofway@denbighshire.gov.uk, neu drwy ffonio **01824 706000** (a gofyn am Hawliau Tramwy Cyhoeddus) yn ystod oriau gwaith arferol.

Gellir anfon unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn yn ysgrifenedig at y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Swyddog Monitro Llywodraethu a Busnes, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1YN, ddim hwyrach na 24 Mawrth 2023. Mae'n rhaid nodi pam y gwneir y sylwadau. Os na dderbynnir unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau, neu os bydd rhai a wneir yn cael eu tynnu'n ôl, gall Cyngor Sir Ddinbych gadarnhau'r Gorchymyn fel Gorchymyn diwrthwynebiad. Os anfonir y Gorchymyn i Lywodraeth Cymru i'w gadarnhau, bydd unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau sydd heb gael eu tynnu'n ôl yn cael eu hanfon gyda'r Gorchymyn.

Dyddiad: 22 Chwefror 2023

Gary Williams

Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Swyddog Monitro Llywodraethu a Busnes
Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych
LL15 1YN (SBHDCC044749)

**Mae'r cynllun hwn yn rhan o Orchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus (Llanarmon yn Iâl 59) 2023 Cyngor Sir Ddinbych.**

**This plan forms part of the Denbighshire County Council (Llanarmon yn Ial 59) Public Path Diversion Order 2023**

Graddfa/Scale: 1: 2500
Dalen Fap/Map Sheet: 15NE

